Ysgol Pentreuchaf

37. Polisi Dysgu drwy Wneud / Chwarae

'Bydd plant yn dysgu drwy weithgareddau sy'n cynnig profiadau uniongyrchol gyda'r busnes difrifol o chwarae yn darparu'r cyfrwng.'

Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 – 7 oed

Nod

Sicrhau bod chwarae / dysgu gweithredol yn rhan hanfodol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Amcanion

- Sicrhau cyfleoedd i'r plant ddysgu drwy brofiadau ral a pherthnasol.
- Sicrhau cyfleoedd i'r plant ymarfer a chyfnerthu eu dysgu.
- Sicrhau cyfleoedd i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o'u hunain a'r byd o'u cwmpas
- Hyrwyddo dysgu fel profiad pleserus a chyffrous
- Meithrin annibyniaeth
- Datblygu hyder a hunan ddelwedd pob plentyn a'i gynorthwyo i ddatblygu fel unigolyn

Canllawiau

I ymgyrraedd at yr amcanion bydd angen

1. Darparu amgylchedd ysgogol, diddorol sydd yn annog y plant i chwarae ac archwilio drwy ddefnyddio eu synhwyrau.
2. Gweld gwerth ac adeiladu ar brofiadau blaenorol.
3. Sicrhau cyfleoedd i'r plant ddilyn trywydd eu diddordebau eu hunain drwy gyfnodau o chwarae rhydd.
4. Darparu cyfleoedd i'r plant archwilio'u hamgylchedd a dysgu sgiliau newydd.
5. Cyfoethogi yr amgylchedd dysgu i wella a datblygu sgiliau a gwybodaeth.
6. Sicrhau amser i'r plant ddatblygu a chadarnhau eu dysgu
7. Darparu cyfleoedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored.
8. Cynnwys y plant yn y cynllunio
9. Darparu addysg o ansawdd uchel a hwyluso dysgu o ansawdd drwy brofiadau uniongyrchol.
10. Sicrhau bod pob ymarferwr yn gwerthfawrogi dysgu drwy chwarae ac yn hwyluso dysgu y plant drwy weithgareddau chwarae.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____